# Ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Medi 2017**

## Rhagair

Mae’n bleser gennyf gyhoeddi ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rwy’n croesawu adroddiad y Comisiwn ac rwy’n falch fod ei ymchwil i farn y cyhoedd yn dangos bod gan y rhan fwyaf o’r pleidleiswyr farn gadarnhaol ar y broses etholiadol a’u bod yn hyderus bod yr etholiadau wedi cael eu cynnal yn dda. Rwy’n ddiolchgar i’r Comisiwn am y gwaith mae wedi’i wneud er mwyn cefnogi’r broses.

Cyflwynir yr ymateb hwn yng nghyd-destun Deddf Cymru 2017 sy’n darparu setliad datganoli cliriach, tecach a chryfach i Gymru. Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth hanesyddol drwy drosglwyddo pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy’n cynnwys datganoli etholiadau’r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Am y tro cyntaf erioed bydd y Cynulliad yn gallu penderfynu sut y bydd ei aelodau’n cael eu hethol, pa etholaethau a rhanbarthau fydd yn cael eu defnyddio yn yr etholiadau hynny a phwy all bleidleisio yn yr etholiadau hynny. Mater i Lywodraeth Cymru felly fydd gweithredu ar sail yr argymhellion hyn ar gyfer etholiad nesaf y Cynulliad. Bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi ddod yn gyfrifol am y pwerau hyn.

Alun Cairns
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

## Cyflwyniad

1. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i'r Comisiwn Etholiadol am ei adroddiad ar weinyddu etholiadau 5 Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad").

2. Rydym yn croesawu un o ganfyddiadau ymchwil y Comisiwn Etholiadol fod 88 y cant o bleidleiswyr yn fodlon â'r ffordd y gweinyddwyd yr etholiadau. Cyfunwyd etholiadau'r Cynulliad ag etholiadau y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Mae'r ymateb hwn yn rhoi sylw i'r 11 o argymhellion sydd yn adroddiad y Comisiwn ar etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymateb ar wahân i adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

3. Fel y mae'r Comisiwn yn nodi, mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli pwerau i benderfynu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol i'r Cynulliad. Ar gyfer yr etholiadau hyn, bydd y Cynulliad yn gallu penderfynu ar y system etholiadol, yr oed pleidleisio, nifer yr etholaethau a rhanbarthau a'u ffiniau, amseru etholiadau, cymhwysedd ymgeiswyr i sefyll fel ymgeisydd ac i eistedd fel Aelodau Cynulliad os cânt eu hethol a'r ffordd y mae'r etholiadau eu hunain yn cael eu cynnal. Bydd y pwerau hyn yn cael eu datganoli fel rhan o'r model "cadw pwerau" newydd ar gyfer datganoli yng Nghymru ar ddyddiad i'w bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau. Bydd y Llywodraeth hefyd yn trosglwyddo'r swyddogaethau gweinidogol angenrheidiol i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau dan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, mae'n bwysig felly nodi mai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am weinyddu etholiadau nesaf y Cynulliad a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2021, ac am weithredu mwyafrif yr argymhellion sydd wedi cael eu gwneud gan y Comisiwn Etholiadol.

## Deddfwriaeth

**Argymhelliad 1: Deddfwriaeth amserol a chywir yn Gymraeg ac yn Saesneg**

*Er mwyn sicrhau mwy o gywirdeb, rydym yn argymell cynnal trafodaeth ehangach ar y ffordd fwyaf effeithiol o wirio rheoliadau drafft ar gyfer etholiadau yng Nghymru cyn iddynt gael eu cyflwyno, gan arwain at sefydlu grŵp defnyddwyr i ystyried unrhyw reoliadau Cymraeg yn ystod y cyfnod drafftio. Dylai'r grŵp gynnwys staff y Comisiwn Etholiadol a chynrychiolwyr cymuned etholiadol Cymru, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.*

*Byddem hefyd yn ailbwysleisio y dylai'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau etholiadol, gan gynnwys deddfwriaeth gyllido yn glir (naill ai drwy Gydsyniad Brenhinol i ddeddfwriaeth sylfaenol, neu drwy gyflwyno is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo gan y Cynulliad/Senedd) o leiaf chwe mis cyn ei bod yn ofynnol ei rhoi ar waith neu gydymffurfio â hi – byddai hyn yn cynnwys ffurflenni rhagnodedig cywir ac amserol yn Gymraeg ac yn*

*Saesneg. Mae unrhyw oedi cyn cyhoeddi ffurflenni Cymraeg yn rhoi timau etholiadau a phleidleiswyr yng Nghymru dan anfantais sylweddol a gall beri risg i'r etholiad dan sylw.*

5. Yn ei adroddiad, mae'r Comisiwn Etholiadol yn tynnu sylw at wallau a ymddangosodd yn y ffurflenni Cymraeg yng *Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016.* #Cywirwyd y gwallau hyn mewn gorchymyn diwygio arall. Mae adolygiad trylwyr wedi'i gynnal gan wasanaethau cyfieithu Swyddfa'r Cabinet ac mae darparwr y gwasanaeth wedi newid ei weithdrefnau i sicrhau y bydd gwasanaethau cyfieithu yn gywir yn y dyfodol.

6. Fel y nodwyd eisoes, bydd pwerau dros etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu datganoli i Gymru drwy Ddeddf Cymru 2017. Mater i Lywodraeth Cymru felly fydd gwneud y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021 gan gynnwys ffurflenni rhagnodedig. Bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ofalus i drefniadau ar gyfer cynhyrchu ffurflenni pleidleisio Cymraeg ar gyfer etholiadau nad ydynt wedi eu datganoli. Rydym eisoes yn cynnwys gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru yn y broses o gynhyrchu ffurflenni a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys drwy weithio gyda Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg y Comisiwn.

7. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod bod angen cael deddfwriaeth etholiadol yn barod mewn da bryd er mwyn gweinyddu etholiadau'n effeithiol. Os yw'n bosibl, rydym yn ceisio cyrraedd y targed, gyda phartneriaid eraill, o gael deddfwriaeth yn barod chwe mis cyn y dyddiad y bwriedir cynnal etholiad. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod yn briodol pennu cyfnod mympwyol â therfyn amser pendant.

8. Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda wedi eu sefydlu ac yn cael eu deall ers tro, a bod hynny'n caniatáu i weinyddwyr a phleidiau ddechrau paratoi cyn i bob deddfwriaeth gael ei phasio. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig mewn da bryd cyn gwneud deddfwriaeth wrth ddatblygu polisi ac yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol. Wrth baratoi *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016* buom yn cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol, gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.

9. Mae'n bwysig nodi y gall nifer o ffactorau effeithio ar y gallu i wneud pob deddfwriaeth o'r fath ymlaen llaw. Mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â phroses, er enghraifft, faint o amser seneddol sydd ar gael i gael dadl a chymeradwyo'r Gorchmynion drafft, neu newidiadau i'r sefyllfa yn y byd go iawn, y mae'n well rhoi sylw iddynt yn nes at ddiwrnod yr etholiad. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd bwlch neu gamgymeriad yn cael ei ganfod yn ystod y chwe mis cyn etholiad. Nid ydym yn credu bod gwahardd unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod hwnnw'n syniad da, gan y gallai rhai newidiadau y gellid eu gwneud fod o fudd i'r pleidleiswyr/etholaeth a/neu o gymorth er mwyn gweinyddu'r etholiad yn effeithiol.

## Grŵp Cyflawni Cymru

> ***Argymhelliad 2: Grŵp Cyflawni Cymru***
> *Dylai Grŵp Cyflawni Cymru parhaol barhau i gwrdd er mwyn gwella a symleiddio'r gwaith o gynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol, a rhoi cyfleoedd i drafod meysydd allweddol sy'n peri pryder. Bydd y Comisiwn yn drafftio cylch gorchwyl ac yn ceisio barn yr holl bartneriaid allweddol, a bydd y gwaith hwn yn dechrau erbyn diwedd 2016.*
>
> ***Argymhelliad 3: Lliw'r papur pleidleisio***
> *Ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, dylai Grŵp Cyflawni Cymru ystyried lliw'r papurau pleidleisio i'w defnyddio ar gyfer pob etholiad a gwneud argymhelliad priodol, gan roi eglurder i Swyddogion Canlyniadau a'u staff ar gam cynnar.*
>
> ***Argymhelliad 4: Gweithio ar lefel ranbarthol ac ar draws awdurdodau***
> *Mae gweithio ar lefel ranbarthol yn gosod her sylweddol i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a gweinyddwyr etholiadol ac mae'n bwysig sicrhau bod rhwydweithiau a systemau cyfathrebu cadarn ar waith er mwyn hwyluso'r broses gynllunio.*
>
> *Ar gyfer etholiadau rhanbarthol yn y dyfodol, byddwn yn hwyluso trafodaeth, drwy Grŵp Cyflawni Cymru, ynghylch sut y gallai Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol weithio ar draws awdurdodau er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd gweithredol.*

10. Mae'r Llywodraeth yn croesawu gwaith Grŵp Cyflawni Cymru y Comisiwn Etholiadol sy'n cefnogi'r broses o gynllunio a gweinyddu etholiadau yng Nghymru. Mae Swyddfa Cymru a Swyddfa'r Cabinet yn cael eu cynrychioli yn y grŵp a byddant yn parhau i gefnogi ei waith.

## Ymgeisyddiaeth

> ***Argymhelliad 5: Dechrau ymgeisyddiaeth***
> *Dylai'r Llywodraeth berthnasol sicrhau bod dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar yr un diwrnod ag y diddymir y Cynulliad, er mwyn osgoi cyfnod o amser lle na chaiff gwariant ei reoleiddio.*

11. Mae'r Llywodraeth yn nodi argymhelliad y Comisiwn. Rhaid i ddyddiad cyhoeddi hysbysiad etholiad fod ddim hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn diwrnod yr etholiad a rhaid diddymu'r Cynulliad 21 diwrnod gwaith cyn diwrnod yr etholiad. Mae hon yn ddarpariaeth ers tro yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried argymhelliad y Comisiwn pan gaiff y pwerau dros etholiadau'r Cynulliad eu datganoli.

## Costau ymgyrchu

***Argymhelliad 6: Costau sy'n gysylltiedig ag anabledd unigolyn a chyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac fel arall***

*Dylai Llywodraethau sydd â chymhwysedd deddfwriaethol dros etholiadau yn y DU ddiwygio'r diffiniadau o wariant ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol fel bod treuliau rhesymol y gellir eu priodoli i anabledd unigolyn yn cael eu heithrio, (fel y nodwyd yn ddiweddar yn rheolau diwygiedig Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn ymgeiswyr nac yn ymgyrchu ar ran pleidiau).*

*Gan fod rheolau PPERA ar gyfer yr ymgyrchwyr hyn bellach yn eithrio'r costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac fel arall, argymhellwn y dylai'r Llywodraeth berthnasol/y Llywodraethau perthnasol gyflwyno darpariaethau cyfreithiol cyfatebol i'r rheolau etholiadau sy'n ymwneud â gwariant ar ymgyrchu gan ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.*

12. Fel y nodwyd gennym yn ein hymateb i adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau 2015[1]', mae'r Llywodraeth wedi diwygio deddfwriaeth er mwyn i dreuliau personol gael eu heithrio o derfynau gwario ymgeiswyr yn yr etholiadau ac isetholiadau canlynol: etholiadau seneddol y DU, etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr, etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf, etholiadau Cynulliad Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban ac etholiadau llywodraeth leol (gan gynnwys etholiadau Cynghorau Cymuned a Phlwyf) yng Nghymru a Lloegr.

13. Caiff treuliau personol, a all gynnwys costau byw a theithio rhesymol yr ymgeisydd, gynnwys costau sy'n gysylltiedig ag anabledd hefyd. Nid yw treuliau personol yn cyfrif tuag at derfyn gwariant ymgeiswyr ac nid ydynt yn rhwym wrth reoliadau gwariant ymgeiswyr. Ond mae'n rhaid i ymgeiswyr gofnodi treuliau personol ar eu ffurflenni gwariant. Nid yw'r ddeddfwriath bresennol ar wariant pleidiau gwleidyddol yn cynnwys unrhyw eithriadau ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag anabledd neu'r costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac fel arall. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn mewn egwyddor mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol y DU. Mater i Lywodraeth Cymru fydd hyn mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad.

## Cofrestru pleidiau

***Argymhelliad 7: Cofrestru enwau a disgrifiadau pleidiau i'w defnyddio ar bapurau pleidleisio***

---

[1] Ymateb Llywodraeth y DU i adroddiadau'r Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion ar Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU 2015.

*Rydym yn parhau i argymell, lle y bo ymgeisydd yn cynrychioli plaid wleidyddol ar bapur pleidleisio, y dylai fod yn glir i bleidleiswyr pa blaid y mae'r ymgeiswyr yn ei chynrychioli. Mae'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer cofrestru disgrifiadau pleidiau yn peri risg y caiff pleidleiswyr eu drysu ac yn cyfyngu ar gyfranogiad pleidiau gwleidyddol. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraethau eraill y DU gydweithio â'r Comisiwn Etholiadol er mwyn diwygio'r darpariaethau ynghylch disgrifiadau pleidiau.*

14. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn glir i bleidleiswyr pa blaid y mae ymgeisydd yn ei chynrychioli a bod y darpariaethau cyfreithiol ar gyfer cofrestru disgrifiadau pleidiau yn hwyluso hyn. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori â phleidiau gwleidyddol, y gweinyddiaethau datganoledig a'r comisiwn etholiadol ynglŷn â'r mater hwn.

## Gwariant ymgeiswyr

***Argymhelliad 8: Tryloywder a hygyrchedd gwariant ymgeiswyr***
*Er mwyn gwneud ffurflenni gwariant ymgeiswyr yn fwy tryloyw a hygyrch, rydym wedi argymell yn y gorffennol y dylai fod yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi ffurflenni gwariant ar-lein yn ogystal â thrwy'r dulliau presennol o archwilio gan y cyhoedd. Rydym yn cefnogi argymhelliad 12-5 o adolygiad 12 Comisiwn y Gyfraith o Gyfraith Etholiadol sy'n cynnig dull o roi'r newid hwn ar waith drwy ddeddfwriaeth.*

15. Mae Erthygl 62 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn nodi ei bod yn ofynnol i Swyddog Canlyniadau sicrhau bod ffurflenni treuliau etholiadau ar gael i'w harchwilio yn ei swyddfa, neu mewn man cyfleus arall a ddewiswyd ganddo. Er nad oes cyfeiriad penodol at ddarpariaeth ar-lein, nid yw'n golygu na fyddai hynny'n bosibl.

16. Byddai angen newid, fodd bynnag, pe bai cyhoeddi ar-lein yn dod yn ofynnol fel sy'n cael ei argymell gan y Comisiwn. Byddai newid o'r fath yn galw am ystyriaeth ofalus o'r materion ymarferol sy'n berthnasol i Swyddogion Canlyniadau ac o'r goblygiadau posibl a allai ddeillio o anghysondeb wrth gyhoeddi treuliau, rhwng treuliau etholiadau'r Cynulliad a'r rhai hynny sy'n gysylltiedig ag etholiadau eraill, lle mae ffurflenni treuliau'n cael eu harchwilio dan ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd y Llywodraeth yn ystyried hyn ar y cyd ag argymhelliad Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn 2015 y dylid cael opsiwn ar-lein ar gyfer cyflwyno ffurflenni treuliau etholiadau ymgeiswyr.

## Pwerau'r Comisiwn

**Argymhelliad 9: Ymestyn pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau**
*Rydym yn parhau i argymell ymestyn ein pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau mewn etholiadau mawr yn achos troseddau*

*sy’n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr, gan gynnwys yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yn bwysig i Lywodraethau a Seneddau ledled y DU gydweithio er mwyn cyflwyno pwerau newydd y Comisiwn ar gyfer gwahanol setiau o etholiadau.*

17. Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU ym Mai 2015 ac etholiadau Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a deddfwrfeydd datganoledig eraill oedd y rhai cyntaf o’u bath i’r Comisiwn Etholiadol allu ymarfer y pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau a roddwyd iddo gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 ynddynt. O ganlyniad, mae’n briodol ystyried maint y pwerau hyn a’r defnydd ohonynt yn ngoleuni’r profiad o’r etholiadau hynny.

18. Bydd y Llywodraeth yn cadw'r mater hwn dan adolygiad. Byddai unrhyw newid i bwerau gorfodi hefyd angen ystyried os yw’r gweithdrefnau presennol yn rhoi digon o amser ar gyfer dychwelyd atebion fanwl gywir.

## Cyfryngau Cymdeithasol

**Argymhelliad 10: Adrodd ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn etholiadau yn y dyfodol**
*Byddwn yn ystyried ymhellach sut y dylai ymgyrchwyr adrodd ar wariant ar gyfryngau cymdeithasol mewn etholiadau yn y dyfodol. Wrth i wariant yn y maes hwn gynyddu, ceir potensial am lai o dryloywder os na ellir nodi gwariant ar gyfryngau cymdeithasol yn hawdd yn y ffurflenni gwariant, oherwydd nid yw cyfryngau cymdeithasol yn gategori penodol ar y ffurflen. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o’r broses o adolygu’r holl gategorïau gwariant yr adroddir arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn gymesur ac yn berthnasol i dueddiadau ymgyrchu yn y dyfodol. Rhag ofn y byddai angen rhoi unrhyw rai o’r newidiadau hyn ar waith drwy ddeddfwriaeth, argymhellwn y dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deddfwrfeydd ystyried yr amseru sydd ei angen ar gyfer rhoi newidiadau ar waith cyn yr etholiadau mawr nesaf.*

19. Mae'r Llywodraeth yn nodi’r argymhelliad hwn, a bydd yn ei ystyried yn ofalus yn unol â’r argymhelliad tebyg yn adroddiad y Comisiwn ar wariant ar ymgyrchu yn Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU 2015 (Argymhelliad 3). Er ein bod yn cydnabod bod angen sicrhau bod y rhestrau o weithgareddau y mae’n rhaid adrodd am wariant sy’n gysylltiedig â hwy yn cadw i fyny â datblygiadau mewn dulliau ymgyrchu, rydym yn nodi bod gwariant ar gyfryngau cymdeithasol yn ddarostyngedig i’r gofynion presennol ar gyfer gwariant ac adrodd, a chredwn fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn canfod a ddylid ychwanegu categori penodol cyfryngau cymdeithasol at y rhestrau ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr trydydd parti a sut y gellid gwneud hynny.

## Cofrestru etholiadol

**Argymhelliad 11: Darparu ffordd o wirio statws cofrestru ar-lein**
*Byddai darparu ffordd i etholwyr wirio eu statws cofrestru ar ddechrau'r broses o wneud cais ar-lein i gofrestru yn golygu bod angen i bleidleiswyr wneud llai er mwyn sicrhau bod eu cofnod ar y gofrestr yn gyfredol, a byddai hefyd yn lleihau'r baich o brosesu ceisiadau dyblyg sydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol.*

*Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu gwasanaeth ar-lein er mwyn galluogi pobl i wirio p'un a ydynt eisoes wedi cofrestru'n gywir i bleidleisio cyn iddynt gwblhau cais newydd i gofrestru.*

*Byddai angen i unrhyw wasanaeth o'r fath reoli a diogelu gwybodaeth bersonol pleidleiswyr yn ofalus.*

20. Mae'r holl geisiadau i gofrestru i bleidleisio a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod cyn etholiadau yn ddiweddar megis Refferendwm yr UE ac etholiad cyffredinol 2017 yn dangos sut mae cofrestru ar-lein wedi trawsnewid y broses o gofrestru ar gyfer etholiadau gan ei gwneud yn gyflymach ac yn fwy hygyrch nag erioed o'r blaen i filiynau o bobl.

21. Gwyddom mai un o sgil-effeithiau'r trawsnewid arbennig o gadarnhaol hwn yw'r cynnydd yn nifer y ceisiadau i gofrestru i bleidleisio gan bobl sydd eisoes wedi cofrestru, yn enwedig mewn etholiadau mawr megis refferendwm neu etholiad seneddol. Mae'r ceisiadau dyblyg hyn yn faich gweinyddol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff mewn cyfnod sydd eisoes yn brysur.

22. Oherwydd hyn, rydym wedi ymrwymo i chwilio am ffyrdd o wneud bywyd yn haws i weinyddwyr heb greu rhwystrau cofrestru newydd i ddinasyddion. Er bod offeryn chwilio ar-lein yn ateb posibl, mae'n amlwg y byddai'n gostus iawn, y gallai achosi pryder ynglŷn â phreifatrwydd a diogelwch data ac y gallai gael y canlyniad anfwriadol o wneud i gofrestru ymddangos yn fwy cymhleth ac felly'n atal pobl rhag gwneud hynny.

23. Canfuwyd problemau tebyg pan ystyriwyd creu 'Cofnod Cydgysylltedig Ar-lein o Etholwyr (CORE)', a fyddai wedi creu un gronfa ddata yn cyfuno data o'r holl gofrestri sy'n cael eu dal gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Roedd costau llunio a chynnal cronfa ddata o'r fath yn anghymesur o'i gymharu â manteision posibl y gronfa a phenderfynodd y Llywodraeth glymblaid flaenorol canslo'r prosiect hwnnw gan na fyddai wedi darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

24. Nid ydym yn credu bod tystiolaeth i gefnogi'r farn mai offeryn chwilio ar-lein yw'r ateb iawn. Mae'n well gennym ni gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn canfod yr ateb gorau. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio gyda chyflenwyr meddalwedd rheoli etholiadau, y gymuned etholiadol, ac eraill â diddordeb er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effaith, maint a chost y baich sy'n cael ei achosi gan geisiadau dyblyg. Byddwn wedyn yn dadansoddi'r dystiolaeth er mwyn sefydlu'r ffordd orau o symud ymlaen.